Canllaw i gael y cyhoeddusrwydd mwyaf ar gyfer eich prosiect

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Hyrwyddo eich prosiect

Llongyfarchiadau ar dderbyn grant gan y Gronfa Loteri Fawr.

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut y gallwch gynyddu ymwybyddiaeth o'ch prosiect er mwyn i bobl wybod pwy ydych, beth rydych yn ei wneud a sut y gall pobl elwa o'ch prosiect. Mae'n bwysig eich bod yn eu hysbysu am yr ariannu a ddarperir gan y Gronfa Loteri Fawr er mwyn i bobl gefnogi'r Loteri a medru gweld sut mae arian Loteri'n cael ei wario yn eu cymuned.

Hyrwyddo eich prosiect

Wrth benderfynu sut i hyrwyddo eich prosiect, ystyriwch y cwestiynau hyn:

Pwy ydych eisiau iddynt wybod am eich prosiect?

Beth ydych eisiau iddynt wybod?

Rydym yn awyddus eich bod yn dechrau hysbysu pobl am ein hariannu cyn gynted â phosib, ond gofalwch nad ydych yn gwneud hyn cyn dyddiad embargo'r wasg. Dyma pryd y bydd ein swyddfa wasg yn cyhoeddi'n ffurfiol pwy sydd wedi derbyn ariannu gennym.

Rhai awgrymiadau

Dyma rai awgrymiadau defnyddiol ynghylch hyrwyddo eich gwaith:

- Rhowch drefn ar bethau – lluniwch gynllun o bwy y mae angen iddynt wybod beth, a sut y byddwch yn cyfathrebu â nhw.
- Ystyriwch eich negeseuon a'ch cynulleidfaoedd.
- Pwy ydych chi'n cyfathrebu â nhw a pham?
- Sut ydych eisiau iddynt deimlo am eich prosiect?
- Oes angen i chi gael eu cymorth nhw gyda gwirfoddoli, codi arian, etc?

Cofiwch fod gan bobl ddiddordeb mewn pobl. Peidiwch ag esgeuluso ochr ddynol yr hyn a wnewch. Mae straeon personol bob amser yn boblogaidd, yn enwedig os ydynt yn emosiynol neu'n ysbrydoliaethus.

Defnyddio ein logo

Mae'n amod o'ch grant eich bod yn cydnabod ein hariannu i'r raddau helaethaf posib.

Mae hyn yn golygu sicrhau bod ein logo buddiolwr yn ymddangos ar eich gwefan ac ar ddatganiadau i'r wasg, posteri, taflenni ac eitemau eraill rydych yn eu cynhyrchu. Rhoddwn fanylion sut i ddefnyddio ein logo yn ein llyfryn Gofynion Cydnabyddiaeth Grant. Gallwch lawrlwytho copi o hyn yn **www.cronfaloterifawr.org.uk/index/grant-uk.htm**

Cyfryngau cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn cyfeirio at y ffyrdd y mae pobl yn cyhoeddi ac yn rhannu gwybodaeth ar-lein.

Mae'n ffordd effeithiol o gynnwys pobl yn eich prosiect, rhannu arbenigedd a phrofiad, a hyrwyddo gweithgareddau eich prosiect i gynulleidfa ehangach.

- Gallech ymuno â gwefan rhwydweithio cymdeithasol megis Facebook a Twitter i rannu gwybodaeth a hyrwyddo eich prosiect, neu gallech drefnu 'Tweetup' i gwrdd wyneb yn wyneb. Gofalwch ddefnyddio #biglf ar twitter, a 'hoffi' ein tudalen ar Facebook **www.facebook.com/BigLotteryFund**
- Gallwch lwytho lluniau i wefannau rhannu lluniau megis Flickr. (Gwnewch yn siŵr bod gennych yr hawlfraint angenrheidiol gan y ffotograffydd a chaniatâd gan y bobl a ymddengys yn y lluniau.) Mae ffurflen ganiatâd ar gael ar ein gwefan.
- Sefydlwch eich blog eich hun i ddenu sylw pobl a chreu diddordeb yn eich prosiect. Crëwch gyswllt rhwng hyn a'ch gwefan chi a gwefannau perthnasol eraill. (Mae **www.wordpress.com** yn wefan dda, hawdd ei defnyddio a phoblogaidd sy'n darparu cyngor ar ddatblygu eich blog.) Dylai post ar eich blog gael ei dagio gydag allweddeiriau perthnasol. Mae defnyddio tagiau yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael gwybod am eich cynnwys a dweud yn gyflym wrth ddarllenwyr am beth mae'r post yn sôn.
- Cynhyrchu fideos neu bodlediadau byr am eich prosiect i'w postio ar wefannau rhwydweithio megis YouTube. Byddem wrth ein boddau â gweld/clywed eich fideos a phodlediadau ac yn creu cysylltiadau rhyngddynt er mwyn ein cadw'n ymwybodol o'r hyn rydych yn ei wneud. Gallwch eu hanfon atom yn swyddfa ranbarthol y Gronfa yn eich ardal. Mae'r manylion cyswllt ar ein gwefan **www.cronfaloterifawr.org.uk**
- Defnyddiwch e-bost i ddiweddaru pobl ar eich prosiect.

Gallwch ddod o hyd i gyngor mwy manwl ar sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ein gwefan.

Gwefannau

Os nad oes gennych wefan eisoes, gallech roi cynnig ar sefydlu gwefan sylfaenol, megis blog. Mae **www.wordpress.com** yn defnyddio templed sy'n gadael i chi greu gwefan syml yn hwylus, ac mae ganddynt lawer o ganllawiau i'ch helpu.

Gofynnwch i fudiadau lleol megis cynghorau, Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol a busnesau lleol gynnwys gwybodaeth am eich prosiect ar eu gwefan a chynnwys cyswllt â'ch gwefan.



Cyhoeddusrwydd wedi'i argraffu

Mae posteri, pamffledi, taflenni a chylchlythyron i gyd yn ffyrdd effeithiol o hyrwyddo eich prosiect. Maent yn annog pobl i gymryd rhan yn eich gwaith ac yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddigwyddiadau rydych wedi'u cynllunio.

I gael yr effaith fwyaf posib o'ch deunyddiau cyhoeddusrwydd:

- Ceisiwch feddwl am ble y caiff ei ddefnyddio – ydyw'n briodol ar gyfer y gynulleidfa rydych yn ceisio ei chyrraedd?
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn ei arddangos mor helaeth â phosib yn eich cymuned leol – mae siopau lleol, archfarchnadoedd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chanolfannau iechyd i gyd yn lleoedd y mae nifer mawr o bobl yn mynd iddynt.
- Cofiwch ddefnyddio ein logo buddiolwr ar unrhyw beth rydych yn ei gynhyrchu.

I'ch helpu i greu eich deunyddiau eich hun, rydym wedi llunio rhai templedi sy'n cynnwys ein logo, y gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan yn **www.cronfaloterifawr.org.uk**

Bydd cynnal digwyddiad yn cynyddu ymwybyddiaeth o'ch prosiect ymysg pobl leol.

Cynnal digwyddiadau

Mae'n syniad da gwahodd pobl allweddol o'ch cymuned, megis cynghorwyr, eich AS, y wasg yn ogystal â'r holl bobl sy'n ymwneud â sefydlu eich prosiect.

Gallai digwyddiad agor roi cyfle hefyd i chi rwydweithio a chreu cysylltiadau, a gallai arwain hefyd at gyfleoedd ariannu pellach ar gyfer eich mudiad neu eraill yn y gymuned.

Isod mae rhai enghreifftiau o'r digwyddiadau y gallwch eu cynnal:

- Trefnu digwyddiad lansio ar gyfer eich prosiect i roi gwybod i'r gymuned leol a'r wasg beth byddwch yn ei wneud.
- Cynnal diwrnod agored i gynnwys pobl yn eich prosiect.
- Dathlu cwblhau eich prosiect er enghraifft adnewyddu adeilad, cyfleusterau newydd, diwedd rhaglen weithgareddau.

Mae defnyddio'r wasg, y teledu a radio'n ffordd effeithiol o hyrwyddo eich prosiect.

Defnyddio'r cyfryngau

Dyma'r hyn y dylech ei wneud:

- Anfon datganiadau i'r wasg i gyfryngau lleol a rhanbarthol, gan gynnwys cylchgronau a chylchlythyron cymunedol, er mwyn eu hysbysu am eich ariannu a'r gwaith da a wnewch. Os ydych wedi cynhyrchu podlediad neu ffilm, dylech gynnwys dolen iddynt gan fod y cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o ddefnyddio eich stori.
- Cysylltu â'r wasg leol, y darlledwyr a'r sianeli cyfryngau cymdeithasol a'u hannog i 'eiriol' eich prosiect gydag eitemau newydd rheolaidd.
- Trefnu cyfle tynnu lluniau – gallai hyn fod yn gysylltiedig â digwyddiad rydych yn ei gynnal, neu dim ond i amlygu cam allweddol o'ch prosiect. Peidiwch ag anghofio cael caniatâd gan rieni neu warcheidwaid unrhyw blant sy'n ymddangos mewn lluniau.

Mae cyngor ar gysylltu â'r cyfryngau a llunio datganiadau i'r wasg ar ein gwefan yn ogystal ag awgrymiadau ar fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd tynnu lluniau.

Gallwch lawrlwytho ffurflen rhyddhau lluniau ar gyfer plant ar ein gwefan hefyd.

Cysylltwch â'r wasg leol a gorsafoedd radio a'u hannog i 'eiriol' eich prosiect gydag eitemau newydd yn rheolaidd.



Gallai denu cefnogaeth gan berson enwog i gefnogi eich mudiad a helpu i godi ei broffil fod yn hwb mawr i'ch mudiad.

Cefnogaeth gan bobl enwog

Os ydych yn bwriadu defnyddio person enwog, mae'n bosib y byddwch am ystyried y canlynol:

- Ydych chi'n rhannu'r un gwerthoedd? Darllenwch gylchgronau a cholofnau am bobl enwog a'u diddordebau i geisio cael gwybodaeth am y mathau o ddigwyddiadau y maent yn eu mynychu.
- Ydy'r person yn destun unrhyw sylw negyddol? Os ydyw, efallai y byddwch am osgoi ei ddefnyddio gan y gallai gael effaith andwyol ar eich prosiect.
- Faint o amser ydych ei eisiau gan eich person enwog ac a fydd ganddo/ganddi rôl? Er enghraifft, ydych am iddynt gynrychioli eich ymgyrch, agor digwyddiad neu siarad ar ran eich ymgyrch?

Gallwch gysylltu â **www.mediatrust.org** a **www.askcharity.org.uk** i gael cyngor ar gysylltu ag enwogion uchel eu proffil.

Ydych chi'n rhannu'r un gwerthoedd? Darllenwch gylchgronau a cholofnau am bobl enwog a'u diddordebau.

Ble i gael cymorth

Gallwch gael cyngor a chefnogaeth o ran hyrwyddo eich prosiect gan eich swyddfa Cronfa Loteri Fawr leol. Byddwch yn dod o hyd i fanylion cyswllt eich swyddfa leol ar ein gwefan.

Gallwn gynnig cyngor ar:

- Weithio gyda'r cyfryngau
- Llunio datganiadau i'r wasg
- Trefnu digwyddiadau
- Defnyddio cyfryngau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

Gwiriwch ein gwefan yn rheolaidd am yr wybodaeth a'r adnoddau diweddaraf i'ch helpu i hyrwyddo eich prosiect.

Manylion cyswllt
branding@biglotteryfund.org.uk
www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd, gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol, hyrwyddo cymryd rhan, hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cymunedau cynhwysol, lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Ein cenhadaeth
Rydym yn ymrwymedig i ddod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd

- Bod yn gefnogol ac yn barod i helpu
- Gwneud y defnydd gorau o arian Loteri
- Defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth

© Cronfa Loteri Fawr, Awst 2011

www.cronfaloterifawr.org.uk



v.1.0 – Awst 2011

A guide to achieving maximum publicity for your project

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Promoting your project

Congratulations on getting a grant from the Big Lottery Fund.

This booklet explains how you can publicise your project so that people know who you are, what you do and how people can benefit from your project. It is important that you tell them about your funding from the Big Lottery Fund so people support the Lottery and can see where Lottery money is being spent in their community.

Promoting your project

When deciding how to promote your project, ask yourself these questions:

Who do you want to know about your project?

What do you want them to know?

We are keen that you start telling people about our funding as soon as possible but please make sure that you do not do so before the press embargo date. This is when our press office will be making a formal announcement about who has received funding from us.

Top tips

Here are some top tips about publicising your work:

- Get organised – put together a plan of who needs to know what and how you will communicate with them.
- Think about your messages and your audiences.
- Who are you communicating with and why?
- How do you want them to feel about your project?
- Do you need their help with volunteering, fundraising, etc?

Remember that people are interested in people. Don't neglect the human side of what you do. Personal stories are always popular, particularly if they are moving or inspiring.

Using our logo

It's a condition of your grant that you acknowledge our funding as widely as possible.

This means making sure that our beneficiary logo is on your website, press releases, posters, flyers and other items you produce. We give details of how to use our logo in our Grant Acknowledgement Requirements booklet. You can download a copy of this at **www.biglotteryfund.org.uk/grant-uk**

Social media

Social media refers to the ways that people publish and share information online.

It is an effective way of involving people in your project, sharing expertise and experience and publicising your project's activities to a wider audience.

- Join a social networking website such as Facebook or Twitter to share information and publicise your project, or you could arrange a Tweetup to meet up in person. Make sure you use #biglf on twitter and like our facebook page: **www.facebook.com/BigLotteryFund**
- Upload photographs to photo-sharing sites such as Flickr. (Make sure you have got the necessary copyright from the photographer and consent from the people in the photos.) A consent form is on our website.
- Set up your own blog to grab people's attention and create interest in your project. Link this to your website and other relevant sites. (**www.wordpress.com** is a good, easy-to-use and popular site which gives advice on developing your blog.) Posts on your blog should be tagged with relevant keywords. The use of tags makes it easier for people to find your content and quickly tell readers what a post is about.
- Produce short videos or podcasts about your project to post on networking sites such as YouTube. We would love to see/hear your videos and podcasts and link up to them so keep us informed of what you are doing. You can send them to us at the BIG regional office in your area. Contact details are on our website: **www.biglotteryfund.org.uk**
- Use email with e-newsletters for updating people on your project.

You can find more detailed advice on how to use social media on our website.

Websites

If you don't have a website already, you could try setting up a basic site, such as a blog. **www.wordpress.com** uses a template that lets you easily create a simple website and they have lots of guides to help you.

Ask local organisations such as councils, Councils for Voluntary Service and local businesses to include information about your project on their website and include a link to your website.



Printed publicity

Posters, leaflets, flyers and newsletters are all effective ways of promoting your project. They encourage people to become involved in your work and let them know about any events you have planned.

To get maximum impact from your publicity materials:

- Think about how and where they will be used – is it appropriate for the audience you are trying to reach?
- Make sure you display them as widely as possible in your local community – local shops, supermarkets, libraries, recreation centres and health centres are all places where large numbers of people go.
- Remember to use our beneficiary logo on anything you produce.

To help you create your own materials, we have created some templates incorporating our logo which you can download from our website: **www.biglotteryfund.org.uk**

Holding an event will raise awareness of your project among local people.

Holding an event

It's a good idea to invite key people from your community such as councillors, your MP and the press as well as all the people involved in setting up your project.

An opening event could also give you the opportunity to network and build contacts, and also lead to further funding opportunities for your organisation or others within the community.

Below are some examples of the events you can hold:

- Arrange a launch event for your project to let the local community and press know what you will be doing.
- Hold an open day to involve people in your project.
- Celebrate the completion of your project, for example, building refurbishment, new facilities, the end of a programme of activities.

Using press, TV and radio is an effective way of promoting your project.

Using the media

Here's what you should do:

- Send out press releases to local and regional media including community magazines and newsletters to tell them about your funding and the good work you do. If you have produced a podcast or film include a link to it as the local media are more likely to use your story.
- Contact local press, broadcasters and social media channels to encourage them to champion your project with regular new items.
- Arrange a photocall – this could be linked to an event you are holding, or simply to highlight a key stage in your project. Don't forget to get the consent of parents or guardians of any children being photographed.

There is advice on contacting the media and writing press releases on our website as well as tips on getting the most from photocalls.

You can also download a photo consent form for children from our website.

Contact local press and radio stations and encourage them to champion your project with regular new items.



Engaging a celebrity to support your organisation and help raise its profile could be a huge boost for your organisation.

Celebrity support

If you are planning on using a celebrity, you might want to consider the following:

- Do you have shared values? Read celebrity magazines and columns on their interests and try to find out about the types of events they attend.
- Is the person controversial? If so, you may want to avoid using them as it could be detrimental to your project.
- How much time do you want from your celebrity and do they have a role? For example, would you like them to represent your campaign, open an event or speak on behalf of your campaign?

You can consult **www.mediatrust.org** and **www.askcharity.org.uk** for advice on approaching high profile celebrities.

Do you have shared values? Read celebrity magazines and columns on their interests.

Where to get help

You can get advice and support with publicising your project from your regional BIG office. You will find the contact details for your local office on our website.

We can help with advice on:

- Working with the media
- Writing press releases
- Organising events
- Using online and social media.

Please check our website regularly for the latest information and resources to help you to promote your project.

Contact details
branding@biglotteryfund.org.uk
www.biglotteryfund.org.uk

Accessibility
Please contact us to discuss any specific communication needs you have.

Our equality principles
Promoting accessibility, valuing cultural diversity, promoting participation, promoting equality of opportunity, promoting inclusive communities, reducing disadvantage and exclusion. Please visit our website for more information.

Our mission
We are committed to bringing real improvements to communities and the lives of people most in need.

Our values
- Being supportive and helpful
- Making best use of Lottery money
- Using knowledge and evidence

© Big Lottery Fund, August 2011

www.biglotteryfund.org.uk



v.1.0 – August 2011